Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Gynradd Rhosgadfan
Rhosgadfan
Caernarfon
Gwynedd
LL54 7EU

06/01/2025

Annwyl Judith Owen

**Ymweliad Interim:** Rhagfyr 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Rhosgadfan yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'i harolygiad craidd ym mis Mehefin 2017.

Yn ystod yr ymweliad cafodd y tîm cyfle i:

- Ymweld â dosbarthiadau
- Siarad â disgyblion
- Cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
- Craffu ar waith disgyblion
- Craffu ar ddogfennaeth

Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi gweithio'n briodol i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Maent yn cydnabod bod agweddau y gallent gwella ymhellach. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

**Ffocws yr ymweliad**

**Sicrhau bod y cynllunio a'r addysgu yn darparu tasgau heriol i ymateb i anghenion pob disgybl**

- Ers yr arolwg craidd, mae athrawon wedi cydweithio'n fwriadus i dreialu ffyrdd newydd o gynllunio a pharatoi at Cwricwlwm i Gymru. Erbyn hyn, maent yn cynnwys gweithgareddau dysgu pwrpasol sy'n cwmpasu rhai o'r meysydd dysgu a phrofiad yn briodol. Er enghraifft, mae athrawon yn cynnig cyfleodd bwriadus i ddisgyblion datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig mewn cyd destunnau amrywiol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth a deallwrieth o rinweddau gwahanol ffurfiau ysgrifennu yn effeithiol wrth ysgrifennu darnau estynedig i'w cyflwyno i eraill.

- Mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i werthuso effaith cynlluniau’r athrawon yn gyson er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd pwrpasol a chyfoethog i ddatblygu eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Er enghraifft, yn ddiweddar maent wedi adnabod yr angen i gynnig mwy o gyfleoedd bwriadus i ddisgyblion datblygu eu medrau rhifedd a digidol mewn cyd destunau bywyd go iawn.
- Yn yr arsylwadau gwersi a gynhaliwyd yn ystod ein hymweliad, roedd rhediad addas i’r addysgu a dysgu disgyblion. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd dechrau'r sesiynau dysgu’n fywiog ac roedd cyflwyniadau athrawon yn cefnogi cynnwys y gwersi. Roedd athrawon yn cynnig cyfloedd bwriadus i ddisgyblion trafod a rhannu eu syniadau o fewn eu grwpiau ac roedd hyn yn effeithiol wrth ddatblygu medrau meddwl a llafar Cymraeg llawer o ddisgyblion. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o waith disgyblion dros amser yn dangos nad yw’r gweithgareddau dysgu bob amser yn cynnig digon o her i leiafrif o ddisgyblion, yn enwedig y rhai uwch eu gallu.

**Sicrhau bod arweinwyr yr ysgol yn gweithredu’n fwy effeithiol wrth osod cyfeiriad strategol a monitro blaenoriaethau ar gyfer gwelliant.**

- Mae’r pennaeth yn meddu ar weledigaeth glir ar gyfer datblygu’r ysgol, sydd wedi ei seilio ar gynnal lles disgyblion a datblygu eu medrau mewn awyrgylch gartrefol a hapus. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu.
- Yn sgil craffu priodol gan y pennaeth a’r staff, mae’r ysgol yn adnabod rhai agweddau pwysig sydd angen eu datblygu o ran cynllunio’r cwricwlwm, a datblygu gwahanol fedrau’r disgyblion. Mae blaenoriaethau gwella cyfredol yn cael eu rhannu’n gamau gweithredu addas, ac mae sylw priodol yn cael ei roi i werthuso cynnydd yn unol a meini prawf pwrpasol.
- Mae aelodau’r corff llywodraethol yn cyfrannu’n briodol wrth drafod datblygiad strategol yr ysgol. Maent yn ymweld â’r ysgol yn reolaidd ac yn gwneud cyfranniad pwrpasol wrth werthuso ansawdd y ddarpariaeth i’r disgyblion. Er enghraifft, drwy craffu ar waith disgyblion, mae aelodau’r corff wedi adnabod agweddau pwysig sydd angen gwella, gan gynnwys yr adborth datblygiadol sy’n cael ei gynnig er mwyn i ddisgyblion datblygu eu gwaith ymhellach. Yn ogystal, mae aelodau’r corff llywodraethol wedi cyfannu’n bwrpasol at trafodaethau ar sut i wella medrau llafar Cymraeg disgyblion. Mae hyn wedi arwain at gyflwyno ymyrraethau penodol, gan gynnwys sesiynnau ymafer patrymau iaith yn ddyddiol.
- Mae arweinwyr wedi adnabod yr angen i gadw at amserlen gytunedig o weithgareddau hunan werthuso rheolaidd, ac mae’r agwedd wedi ei hadnabod yn faes datblygiad o fewn y cynllun datblygu ysgol cyfredol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6612098

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol